# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 12fed o Ragfyr, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** William Jones **(WJ);** Sianelen Pleming **(SP);** Osian Hugh Williams **(OHW);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN</u>**<br><br>Sara Williams **(SW);** Olwen Roberts **(OR);** Gethin Jones **(GJ)**; Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** Ynyr Ellis **(YE);** Emlyn Williams **(EW).** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2023** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan WJ gyda GJLJ yn eilio a phawb yn cytuno. |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a) <u>MEINCIAU LLITHFAEN A PHISTYLL</u>**<br>Derbyniwyd diweddariadau gan JG yn adrodd bod y Tîm Tacluso wedi bod yn talu sylw i fainc Carnguwch ond yn anffodus mae'r ffrâm concrit yn ddiffygiol felly roedd y tîm wedi ei thynnu o'r lleoliad rhag ofn i rywun gael anaf. Derbyniwyd argymhellion gan y Tîm i'r Cyngor archebu un newydd.<br>Nid oedd diweddariad parthed Mainc Pistyll – Gan fod gwariant posib i'w wneud, cytunwyd eu trafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**b) <u>ARWYDD CYFLYMDER AR DROED LON GROES, PISTYLL</u>**<br>Adroddodd y clerc bod gwaith i ail leoli'r arwydd wedi ei ychwanegu i raglen waith y Cyngor Sir<br><br>**c) <u>OR/SW– GORDYFIANT</u>**<br>Gyrrwyd sylwadau'r Cyngor ymlaen a rhannwyd lluniau SW gyda'r Tîm Tacluso<br>• Ger Tŷ Llwyd - Chwyn yn Tyfu o'r wal a phridd wedi ei adael ar y lon - Adroddodd LF bod y gwaith wedi ei gynnal<br>• Chwyn o flaen y Ganolfan – Nid oedd posib cadarnhau bo'r gwaith wedi ei gynnal.<br>• Gordyfiant o'r siop i arwydd 20 - Nid oedd posib cadarnhau bo'r gwaith wedi ei gynnal.<br>• Gordyfiant rhwng Gwelfor ac Arosfa, Llithfaen - Nid oedd posib cadarnhau bo'r gwaith wedi ei gynnal.<br><br>**d) <u>SP - DWR YN RHEDEG I'R PENTREF AR LON GORS LWYD</u>**<br>Gyrrwyd sylwadau i'r Cyngor Sir yn adrodd bod rhediad y dŵr wedi newid ers ail wneud y ffordd ar dwr bellach ddim yn rhedeg i'r gratin. Nodwyd bydd yn help mawr derbyn lluniau ar gyfer archwiliadau.<br>GJLJ – Cyngor Sir wedi bod ar y lon yn clirio. |

| | |
|---|---|
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Ni dderbyniwyd sylwadau pellach |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS/APP REF: C23/0924/43/DT - 4, MOUNT PLEASANT, LLITHFAEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6NU**<br>Estyniad un llawr i ochr a chefn yr eiddo gydag uchder crib i beidio â bod yn uwch na'r crib presennol.<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Dim gwrthwynebiad |
| **8.** | **PRECEPT** |
| | Yn dilyn trafodaeth ar ymrwymiadau a chyllideb y Cyngor cynigiodd GJLJ barhau gyda £12,000 eiliodd OH a chytunodd pawb. |
| **9.** | **ADRODDIADAU ARCHWILIADAU ALLANOL YN DIWEDDU MAWRTH 2020, 2021, 2022** |
| | Cymeradwywyd yr adroddiadau a mabwysiadwyd eu hargymhellion |
| **10.** | **APÊL DIFFIBLWR I BISTYLL** |
| | Adroddodd y clerc bod JG wedi gyrru llythyr apêl at Lanw Llŷn (gyda chydsynied Gethin) i geisio cael rhoddion tuag at Deffib Pistyll. Adroddodd WJ bod GJ wedi ei hysbysebu ar dudalen Facebook y pentref.<br>Adroddodd WJ ymhellach bod diddordeb wedi ei ddatgan gan drigolion Pistyll i drefnu Pwyllgor Lleol. Bydd GJ yn paratoi cyfarfod yn y flwyddyn newydd. |
| **11.** | **LON GROES PISTYLL** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth gan Swyddog Prosiect Enwau Lleol y Cyngor Sir yn cadarnhau bwriad i osod arwydd 'Lôn Groes' ar naill ben y llon a'r llall fel bod yr enw yn fyw yn weledol ac yn fwy tebygol o aros ar gof a chadw.<br>Cadarnhaodd ei fod mewn trafodaethau gyda'r adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth fydd yn darparu'r gwaith yn fuan. |
| **12.** | **SAFLE BWS LLITHFAEN** |
| | Nid oedd Peiriannydd y Cyngor Sir yn cytuno gyda sefydlu'r safle bws newydd yn y lleoliad argymhellwyd gan yr aelodau gan ei fod am greu'r un broblem sef diffyg gwelededd gyrwyr yn dod o gyffordd Stad Awelfryn.<br>Credodd mai'r lleoliad mwyaf priodol yw 20m o'r lleoliad presennol yn mynd am gyfeiriad Nefyn. Bydd rhaid adolygu'r lleoliad yn ffisegol cyn gwneud penderfyniad terfynol.<br>Cytunodd yr aelodau i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. |

| | |
|---|---|
| **13.** | **SAFLE BWS PISTYLL** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth gan Briffyrdd Dwyfor yn Cadarnhau ei bod yn fwriad gwella ansawdd yr ardal drwy ddarparu llecyn caled o flaen y safle bws yn fuan. Mae'r gwaith yn brosiect ar y cyd gyda'r Uned Cludiant, ac ar ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.<br>Adroddodd OH bod iechyd a diogelwch y trigolion yn dioddef i gyfeiriad Llithfaen gan nad oedd modd ymochel mewn cysgodfa a'r arferiad yw ymochel dros lon a chroesi pan fo'r bws yn cyrraedd. Cytunodd yr aelodau wneud cais i'r Cyngor Sir am gysgodfa ychwanegol. |
| **14.** | **OS - CAIS I NEWID DEFNYDD LÔN PENRHOS, PISTYLL I FOD YN LLWYBR CYHOEDDUS** |
| | Gyrrwyd sylwadau'r aelodau i newid defnydd y llwybr neu sefydlu arwydd ar waelod Lôn Gladus i gyfeiriad Tŷ Mynydd a Mynydd Nefyn. Gan fod y Swyddog Llwybrau yn parhau i wneud ymholiadau, gofynnodd am amser rhag ofn i fwy o wybodaeth ddod yn amlwg i ddylanwadu ar y camau nesaf.<br>Cytunwyd disgwyl am sylwadau pellach hyd ar fis Ionawr |
| **15.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Derbyniwyd tal am ei hyfforddiant ym mis Tachwedd gan GJ. Nid oedd rhaglen wedi ei baratoi am Ionawr hyd yn hyn. |
| **16.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Gyrrwyd gohebiaeth ddiweddaraf parthes Les y Ganolfan ymlaen i SP yn gofyn iddi amlinellu mewn glas a chadarnhau'r ddau lofnodwr. Gan nad oedd SP yn bresennol cytunwyd ei drafod fis Ionawr. |
| **17.** | **MAES PARCIO'R EIFL** - GWEITHRED AR FFURF DRAFFT |
| | Derbyniwyd lluniau gan SP y clerc i'w gyrru blaen i'r Cyfreithiwr |
| **18.** | **MATERION LLEOL** |
| | a. JG - Gofynnodd am sylwadau'r Cyngor parthed cynnig gwaith tacluso i'r Gwasanaeth Prawf, bydd angen Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar y ddwy ochor. Cytunwyd gofyn iddynt dacluso Mynwent Capel Isaf.<br>b. SW - Cwynion am gôr yrru drwy'r pentref. Rhai yn honni mai trigolion y pentref yw'r rhai sy'n goryrru.<br>Nid oedd diweddariad am y cynlyn gorchwylio cyflymder.<br>GJL hefyd yn adrodd am broblemau cyson gan drigolion lleol yn y bore.<br>Gan nad oedd posib cadarnhau os yw'r Cynllun Gorchwylio yn fyw cytunwyd cadw llygaid am y mis.<br>c. SW - Parcio o flaen Moriah terrace, yn enwedig y car sy'n blocio'r pafin a pharcio o flaen y polyn trydan. Mae hyn yn gwneud hi'n amhosib croesi o un ochr y lon i'r llall yn ddiogel.<br>Gan nad oedd cwyn am y polyn wedi ei wneud yn y gorffennol cytunwyd i ofyn am argymhellion yr adran Priffyrdd<br>d. SP - Rhannodd SP gais ar ran y pentref am goeden Nadolig i Lithfaen a stand, adroddodd bydd cost y ddau oddeutu £75 ond bydd modd cadw'r stand i'w ddefnyddio'n flynyddol. Cynigiodd GJLG gefnogi'r cais, eiliodd WJ a chytunodd pawb.<br>e. LF – Twll yn y ffordd ochor isaf i'r Cae Chwarae<br>f. GJLJ – Twll yn y ffordd ar fin cyrraedd y safle carffosiaeth 100 llath o Lon Rhosydd yn Llithfaen<br>g. OH – Gofyn am safle Bws ochor arall y lon ym Mhistyll hefyd |

| 19. | GOHEBIAETH A GWYBODAETH |
|---|---|

**a.** **BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU**

**b.** **NEGES O LŶN I GRYFHAU'R GYMRAEG**
Gan fod cyn lleied yn bresennol yn y cyfarfod i drafod safbwynt y Cyngor yn llawn cynigiodd GJLJ ymestyn gwahoddiad i gyfarfod Ionawr. Cytunodd pawb.

**c.** **GWARCHOD Y GYMRAEG YN EIN HYSGOLION- CAIS AM GEFNOGAETH**
Cytunwyd cefnogi'r ymdrech, y clerc i ddiweddaru

**d.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - CHWEFROR 2024 - DYDDIAD CAU ESTYNEDIG**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu.

**e.** **OPENREACH FULL FIBRE PLANS FOR LLITHFAEN**
Cytunodd yr aelodau hysbysebu'r trigolion am y fenter. Y clerc i ofyn I GJ a SP I'w hysbysebu ar Facebook y Cyngor a'r siop.

| 20. | CYLLID |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023** | | £ 9,614.09 |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2023** | | £ 2,671.02 |
| - | **LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | £ - |
| + | **GWARGED 2023 / 2024** | | £ 7,405.63 |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 19,690.74** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Dachwedd i 30 o Dachwedd 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 17,913.06** |
| Derbyniadau | + | £ 35.00 |
| Gwariant | - | £ 629.04 |
| Balans Cau | = | **£ 17,319.02** |

**CYFRIF CADW - 07 Dachwedd i 6ef o Ragfyr 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £ 2,690.99 |
| Derbyniadau | + | £ 12.98 |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,703.97** |
| | = | **£ 20,022.99** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | |
|---|---|
| = | **£ -** |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO** | | |
| - | Gillian Thomas | 201292 | £ 294.25 |
| - | Un Llais Cymru | 201293 | £ 38.00 |
| | | = | **£ 332.25** |
| **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | | = | **£ 19,690.74** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR** | - | **£ 251.90** |
| = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | = | **£ 19,438.84** |

| | |
|---|---|
| **21.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 9fed o Ionawr 2024 am 7y.h – Capel Isaf, Llithfaen. |